

Datganiad Astudio/Gweithio Dramor

Darllenwch y datganiad yn ofalus cyn dychwelyd eich cais. Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â Lowri Cooke, Cydlynnydd Cyfnewidiadau Rhyngwladol, l.m.cooke@bangor.ac.uk.

- Rwyf wedi ymchwilio agweddau pwysig am y cyrchfan(nau) ar fy rhestr flaenoriaeth fel (ond nid yn gyfyngedig i):
 - Costau byw
 - Llety
 - Teithio
 - Gofynniadau mewnfudo
 - (Os yn berthnasol) Y gwasanaethau sydd ar gael yn y wlad/prifysgol partner/cwmni rwyf wedi eu rhestru i fyfyrwyr sydd ag anabledd neu wahaniaeth dysgu
 - (Os yn astudio) A oes modiwlau priodol ar gael yn y brifysgol partner
- Rwyf wedi ystyried y costau sy'n berthnasol i fyw dramor a gallaf fforddio cymryd rhan mewn lleoliad yn y cyrchfan(nau) ar fy rhestr flaenoriaeth.
- Rwyf wedi gwirio'r dyddiadau amcangyfrifol ar gyfer y lleoliadau ar fy rhestr flaenoriaeth a cadarnhaf y gallaf fynychu yn ystod y cyfnodau hynny.
- Rwyf wedi darllen a deall y daflen wybodaeth ar gyfer y rhaglen rwy'n ymgeisio amdani NEU rwyf wedi gwyllo'r Sesiwn Gwybodaeth Astudio/Gweithio Dramor NEU rwyf wedi trafod fy opsiynau gyda'r Swyddfa Cyfnewidiadau Rhyngwladol.
- Deallaf fod cyfyngiadau ar nifer y llefydd cyfnewid ym mhreifysgolion partner Prifysgol Bangor ac y gallaf gael fy rhoi ar restr aros neu gael cynnig lleoliad nad oedd ar fy rhestr flaenoriaeth os ydy fy nghais yn llwyddiannus.
- Rwy'n dychwelyd geirada academaidd gyda fy ffurflen gais. **(Ni fyddwn yn prosesu ffurflenni gais sy'n cael eu dychwelyd heb geirada)**
- Rwyf wedi ateb pob cwestiwn ar y ffurflen gais **(Ni fyddwn yn prosesu ffurflenni gais gydag unrhyw gwestiynau heb eu hateb)**
- Rwy'n caniatáu i'r Swyddfa Cyfnewidiadau Rhyngwladol gysylltu â gwasanaethau gweinyddol y brifysgol ac ysgolion academaidd i wirio fy record presenoldeb, gwybodaeth ariannol amdanaf a chanlyniadau fy modiwlau er mwyn penderfynu a ydw i'n gymwys i fynd dramor.
- Rwy'n caniatáu i'r Swyddfa Cyfnewidiadau Rhyngwladol, fy ysgol academaidd, Gwasanaethau Myfyrwyr a fy mhreifysgol neu fy nghwmni derbyn dramor drafod unrhyw anabledd, gyflwr iechyd/meddygol neu wahaniaeth dysgu sydd gennyf. (Bydd y wybodaeth sy'n cael ei rhannu'n gyfyngedig i wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais.)
- Os ydy fy nghais yn llwyddianus, rwy'n deall ei bod hi'n bosib y caiff fy lleoliad ei ganslo neu ei gwtogi oherwydd ymyriad yn ymwneud â'r pandemig Cofid-19, ac y bydd unrhyw gostau sy'n deillio o hyn yn gostau i mi eu talu. Ni fydd Prifysgol Bangor yn talu unrhyw gostau.

Ymgeiswr Blwyddyn o Brofiad Rhyngwladol Yn Unig

- Deallaf y bydd fy rhaglen gradd yn cael ei newid i'r fersiwn 'Blwyddyn o Brofiad Rhyngwladol' ac y byddaf yn graddio o leiaf blwyddyn yn hwyrach os ydy fy nghais yn llwyddiannus.
- Deallaf y bydd fy rhaglen gradd yn cael ei newid yn ôl i'r fersiwn gwreiddiol os nad ydw i'n pasio 15 credyd Bangor (neu'r cyfateb) pob semester tra rwyf fi dramor.

- Os dewisaf wneud Blwyddyn o Brofiad Rhyngwladol ar ddiwedd fy ngradd, deallaf y câf fi fynd i'r seremoni raddio ym mis Gorffennaf dim ond os ydw i wedi dychwelyd trawsgrifiad cofnodion gan fy mhrifysgol derbyn dramor (lleoliadau astudio), neu'r asesiad Blwyddyn o Brofiad Rhyngwladol (lleoliadau gwaith) erbyn y dyddiad cau perthnasol ac efallai y câf fy ngwahodd i'r seremoni ym mis Rhagfyr yn lle os nad ydw i'n dychwelyd y ddogfennaeth cyn y dyddiad cau. **(Ni fedrith y rhan fwyaf o'n prifysgolion partner ddarparu trawsgrifiad cofnodion mewn pryd i chi gofrestru ar gyfer y seremoni ym mis Gorffennaf).**
- Os dewisaf wneud lleoliad gwaith, deallaf fod rhaid i mi drefnu fy lleoliad gwaith fy hun a dychwelyd contract waith llawn-amser (neu debyg) gyda fy nghwmni derbyn dramor i'r Swyddfa Cyfnewidiadau Rhyngwladol erbyn y dyddiad cau o 31 Mai 2021 er mwyn gallu cymryd rhan yn y rhaglen.

Daliwr Fisa Tier 4 Yn Unig

- Deallaf y gall astudio neu gweithio dramor effeithio ar fy fisa Tier 4 a mi ofynnaf i'r Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol yn y Ganolfan Addysg Rhyngwladol am gyngor ar y mater.

Ebost ar gyfer dychwelyd y ffurflen gais: exchanges-outgoing@bangor.ac.uk

Ebost ar gyfer mwy o wybodaeth a chyngor am rhaglenni: l.m.cooke@bangor.ac.uk

Rhif Ffôn: 01248 388156